Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Cynghorau Cymuned & Thref
# Canllawiau Digidol
## Enwi Parthau

Hydref 2024

## Cynnwys


Canllawiau ar Enwi Parthau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru ................. 3
Rhagarweiniad ................................................................................................ 3
Cefndir Enwau Parthau ....................................................................................... 3
Enwau Parthau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref ............................................ 3
1. Dewiswch Enw Parth: ....................................................................................... 4
2. Cofrestrwch Eich Parthau .................................................................................. 5
3. Cysylltwch Eich Enw Parth Gyda'ch Gwefan ac ebyst .......................................... 5
Atodiad A: Trosolwg Byr o Gyfeiriadau IP .............................................................. 6
Atodiad B: Trosolwg o Wasanaethau Enwi Parthau ar y Rhyngrwyd ........................... 6
Atodiad C: Hanes Parthau Lefel-Uwch .wales a .cymru ............................................ 7
Hanes Fersiynau ................................................................................................ 7

# Canllawiau ar Enwi Parthau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

## Rhagarweiniad

Mae’r ddogfen hon yn cynnig canllawiau ar Enwi Parthau ar gyfer gwefannau, e-byst, a gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Mae hon yn agwedd sylfaenol o sut mae’r rhyngrwyd a gwasanaethau digidol yn gweithio, ac mae’n hollbwysig ar gyfer sefydlu hygrededd presenoldeb ar-lein eich Cyngor.

Mae’n trafod cysyniad enwau parthau ac URL, hanes parthau lefel-uwch ac ail-lefel penodol, manteision defnyddio’r parthau hyn, a chanllawiau ar sut i gael gafael arnyn nhw.

Mae’r ddogfen hefyd yn cynnwys esboniad lefel-uchel o enwi a chyfeirio ar y rhyngrwyd a rhai dolenni ar gyfer pobl sy’n awyddus i gael dealltwriaeth fwy technegol o’r pwnc.

Fel y dywedwyd isod y man cyswllt pwysicaf i Gynghorau wrth ystyried eu Henw Parth yw darparydd eu gwefan.

## Cefndir Enwau Parthau

Mae gan bob peiriant sydd wedi’i gysylltu â’r Rhyngrwyd label rhifiadol unigryw. Yr enw ar hwn yw Cyfeiriad IP gan fod y Rhyngrwyd yn defnyddio casgliad o reolau o’r enw’r Protocol Rhyngrwyd (IP) er mwyn gallu cyfnewid data rhwng peiriannau. Mae hyn yn ddigon tebyg i ddefnyddio rhifau ffôn i drefnu galwadau ffôn er bod rhai gwahaniaethau pwysig yn y dull a ddefnyddir. Ceir esboniad a manylion pellach yn Atodiad A.

Fodd bynnag, nid yw cyfeiriadau IP, sef cadwyn o rifau fel '192.168.1.1', yn hawdd eu cofio. Dyna lle y mae “Enwau Parthau” yn ddefnyddiol. Mae enw parth yn enw hwylus sy’n cyfeirio at gyfeiriad IP. Er enghraifft, gallai 'enwcyngor.llyw.cymru' fod yn enw parth ac mae enwau cyfarwydd a ddefnyddir gan frandiau a sefydliadau fel “amazon.com” a “bbc.co.uk” wedi dod yn gwbl gyfarwydd. Mae’r Rhyngrwyd yn defnyddio ei “Wasanaeth Enwi Parthau” (DNS) ar gyfer cyfrifiaduron, gwasanaethau ac adnoddau eraill i drosi enw parth i’w gyfeiriad IP. Mae DNS yn debyg i gasgliad o gyfeiriaduron ffôn sy’n cynnwys yr holl barthau cyhoeddus a’u cyfeiriadau IP cyfatebol. Ceir esboniad a manylion pellach yn Atodiad B.

## Enwau Parthau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Efallai y bydd angen ichi ddewis enw parth ar gyfer eich Cyngor. Gallai hynny fod er

mwyn sefydlu gwefan neu gyfeiriad e-bost. Neu gallai fod i ddiweddaru a gwella eich cofrestriad presennol er mwyn gwella hygrededd a diogelwch.

Pan rydych yn barod bydd angen ichi ddewis a chofrestru enw parth. Dyma fersiwn wedi'i symleiddio o'r broses:

Mae'n bwysig cofio y dylech gael eich sgwrs gyntaf am eich enw parth gyda darparydd eich gwefan. Gan amlaf byddant yn gallu cofrestru eich Enw Parth ar eich rhan ac ymhob sefyllfa bydd angen iddynt ddeall beth rydych wedi'i benderfynu a beth rydych yn bwriadu ei ddefnyddio.

## 1. Dewiswch Enw Parth:

Dylai hynny gynnwys enw eich Cyngor ond dylai fod yn rhywbeth sy'n cynrychioli eich Cyngor yn dda. Wrth ddewis Enw Parth ar gyfer gwefan ac e-byst y Cyngor, mae llawer o wefannau Cynghorau yn gwneud defnydd priodol o barth ".gov.wales/.llyw.cymru" (neu ".gov.uk"). Enghreifftiau yw

Cyngor Tref Abergwaun

www.fishguardgoodwick-tc.gov.wales <http://www.fishguardgoodwick-tc.gov.wales> a chysylltir cyfeiriadau e-bost gyda'r parth hwnnw hefyd h.y. clerk@fishguardgoodwick-tc.gov.wales <mailto:clerk@fishguardgoodwick-tc.gov.wales>.

Cyngor Cymuned Bedlinog a Threlewis

http://www.bedlinogtrelewis-cc.gov.wales/ a clerk@bedlinogtrelewis-cc.gov.wales

Cyngor Tref Caernarfon

https://www.cyngortrefcaernarfon.llyw.cymru/ a clercydref@cyngortrefcaernarfon.llyw.cymru

Pam Defnyddio'r Parthau Hyn?

Mae sawl rheswm pwysig pam ddylai Cynghorau lleol bach a mawr gael enw parth .gov.wales/.llyw.cymru priodol ar gyfer eu Cyngor, (a'r un mor bwysig, system e-byst ddiogel ac wedi'i rheoli'n dda y tu cefn iddo.)

Yn fwy na dim, mae cael parth ".gov.wales/.llyw.cymru" ar gyfer gwefan a chyfrifon e-bost eich Cyngor yn dangos statws llywodraeth leol swyddogol eich Cyngor. Mae aelodau'r cyhoedd yn dod yn fwyfwy ymwybodol o seibr-ddiogelwch, felly gall parth .gov.wales/.llyw.cymru helpu adeiladu ymddiriedaeth, hygrededd a dangos dilysrwydd mewn ffordd amlwg iawn. Erbyn hyn, bydd y rhan fwyaf o bobl yn disgwyl yn rhesymol i Gyngor lleol gael enw parth .gov.

Gall Cynghorau ddefnyddio parth ".gov.wales" neu ".llyw.cymru" yn ôl eu dewis iaith eu hunain. Gallai Cynghorau sy'n cynnig fersiynau o'u gwefan yn y Gymraeg a'r Saesneg ddefnyddio'r ddau a'u defnyddio ar gyfer yr iaith berthnasol. Gallai hwnnw fod yn ateb da hefyd i Gynghorau y mae ganddynt enwau gwahanol yn y ddwy iaith.

Mae parthau ".gov.uk" hefyd ar gael i Gynghorau yng Nghymru. Nid oes rhaid i Gynghorau a chanddynt barth ".gov.uk" yn barod ei newid i barth ".gov.wales" neu ".llyw.cymru".

## 2. Cofrestrwch Eich Parthau

Caiff manylion y polisi ar gyfer cofrestru a defnyddio parthau .llyw.cymru a .gov.wales eu trefnu gan Lywodraeth Cymru ac maent i'w gweld yma

https://www.gov.wales/policy-registering-and-running-llywcymru-and-govwales-domains-html

Fodd bynnag, yn gryno, er mwyn cael parth .gov.wales neu .llyw.cymru, rhaid gwneud cais i Bwyllgor Enwi a Chymeradwyo Cymru (WNAC). Rhaid i hynny gael ei wneud ar ran y Cyngor gan Gofrestrydd enwi parthau cymeradwy. Mae rhestr hir o gofrestryddion cymeradwy i'w gweld yma

https://community.jisc.ac.uk/library/janet-services-documentation/registrar-membership

Efallai fod eich darparydd gwefan presennol yn gofrestrydd cymeradwy. Bydd eich cofrestrydd yn eich helpu i wirio'r fformat cywir ar gyfer eich parth a gofalu nad yw'n gwrthdaro ag unrhyw Gyngor Cymuned neu Dref arall yng Nghymru.

Wedi ichi ddewis eich Enw Parth bydd y cofrestrydd yn gallu cyflwyno'r cais i'w gymeradwyo i'r WNAC. Fel arfer codir tâl am y cais ac yna dâl blynyddol i reoli'r cofrestriad.

## 3. Cysylltwch Eich Enw Parth Gyda'ch Gwefan ac ebyst

Wedi ichi gofrestru eich enw parth, bydd angen ichi ei gysylltu â'ch gwefan a'ch ebost. Gwneir hynny fel arfer trwy eich darparydd gwe westeio, ond efallai y gallwch ei wneud eich hun os ydych yn rheoli eich cyfrif eich hun gyda gwasanaeth cofrestru.

Cofiwch, mae eich enw parth yn rhan bwysig o hunaniaeth ar-lein eich Cyngor. Mae'n werth cymryd yr amser i ddewis enw sydd nid yn unig ar gael, ond sydd hefyd yn cynrychioli cenhadaeth a gwasanaethau eich Cyngor.

## Atodiad A: Trosolwg Byr o Gyfeiriadau IP

Mae “Cyfeiriadu IP” yn gysyniad sylfaenol sy’n sail i’r Rhyngrwyd. Ystyr IP yw “Protocol Rhyngrwyd”, ac mae cyfeiriad IP yn ddyfais adnabod unigryw a roddir i bob peiriant sydd wedi’i gysylltu â rhwydwaith, gan gynnwys y Rhyngrwyd. Gellir ei gymharu â rhif ffôn neu mewn rhai sefyllfaoedd cod post sy’n galluogi peiriannau ar y Rhyngrwyd i gysylltu a throsglwyddo data i’w gilydd.

Defnyddir cyfeiriadau IP ar y Rhyngrwyd mewn dwy brif ffordd:

1. **Llwybro**: Defnyddir cyfeiriadau IP gan lwybryddion i gyfeirio pecynnau data i’w cyrchfan. Pan ddanfonwch ddata dros y Rhyngrwyd, caiff ei rannu’n becynnau, ac mae pob un ohonynt yn cynnwys cyfeiriad IP y peiriant cyrchfan. Mae llwybryddion yn defnyddio’r cyfeiriadau hyn i dywys y pecynnau hyn trwy’r Rhwydwaith i’w cyrchfan derfynol.

2. **Adnabod Gwesteiwr neu Ryngwyneb Rhwydwaith**: Mae angen i bob peiriant sydd wedi’i gysylltu â’r Rhyngrwyd gael cyfeiriad IP unigryw. Mae hyn yn galluogi’r peiriant i gyfathrebu â pheiriannau eraill ar y rhwydwaith. Pan mae peiriant yn danfon data dros y rhwydwaith, mae’n cynnwys ei gyfeiriad IP fel bod y derbynnydd yn gwybod i ble i ddanfon yr ymateb.

Mae dau fath o gyfeiriad IP: **IPv4** ac**IPv6**.

Caiff cyfeiriadau - **IPv4** eu hysgrifennu’n bedair set o rifau sydd wedi’u gwahanu gan gyfnodau. Gall pob set amrywio o 0 i 255. Er enghraifft, `192.168.1.1`.

Cyflwynwyd cyfeiriadau - **IPv6** i ddelio â’r ffaith nad oedd mwy o gyfeiriadau IPv4 ar gael. Maen nhw’n cael ei hysgrifennu’n wyth grŵp o bedwar digid hecsadegol, wedi’u gwahanu gan golonau. Er enghraifft, `2001:0db8:85a3:0000:0000:8a2e:0370:7334`.

## Atodiad B: Trosolwg o Wasanaethau Enwi Parthau ar y Rhyngrwyd

Mae enw parth yn gyfeiriad sy’n defnyddio testun i ddod o hyd i leoliad gwefan neu adnodd arall ar y Rhyngrwyd. Er enghraifft, yn “google.com”, “google” yw’r enw parth. Ar y llaw arall, mae Canfyddwr Adnoddau Unffurf (URL) yn we gyfeiriad llawn sy’n dynodi lleoliadau gwe dudalennau. Mae’n cynnwys y protocol (e.e., ‘https’), yr enw parth, a’r llwybr at dudalen benodol ar y wefan.

Trefnir enwau parthau yn is-lefelau y “System Enwi Parthau (DNS)”. Y set lefel-cyntaf o enwau parthau yw’r “Parthau Lefel-Uwch (TLD)”. Gall y rhain fod yn generig i ddangos natur y wefan, megis “.com”' neu “.org” neu gall gynnwys cod gwlad fel “.uk” neu “.wales”.

Gwasanaethau Enwi Parthau (DNS)

Mae'r System Enwi Parthau (DNS) yn cael ei gymharu'n aml â llyfr ffôn y Rhyngrwyd. Mae pobl yn dod o hyd i wybodaeth ar-lein trwy enwau parthau, fel “google.com”. Fodd bynnag, mae cyfrifiaduron a'u Gwe-borwyr yn rhyngweithio trwy gyfeiriadau Protocol Rhyngrwyd (IP). Mae DNS yn trosi enwau parthau yn gyfeiriadau IP fel y gall porwyr lwytho adnoddau rhyngrwyd.

## Atodiad C: Hanes Parthau Lefel-Uwch .wales a .cymru

Cynigiwyd parthau lefel-uwch (TLD) “.wales” a “.cymru” yn 2012 a chawsant gymeradwyaeth derfynol ym mis Mehefin 2014. Cawsant eu lansio ar 1 Mawrth 2015. Mae'r enwau TLD hyn yn cynnig hunaniaeth unigryw i Gymru ar y Rhyngrwyd.

Parthau Ail Lefel “.gov.wales” a “.llyw.cymru”

Cafodd parthau ail-lefel “.gov.wales” a “.llyw.cymru” (SLD) eu creu gan Lywodraeth Cymru o fewn TLD “.wales” a “.cymru. Caiff yr enwau SLD hyn eu cadw ar gyfer eu defnyddio gan y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Hanes Fersiynau

| | Dyddiad | Cyhoeddwr | Rheswm | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| V1 | 12/11/24 | Justin Horrell | Fersiwn Wreiddiol | 12/11/25 |

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**